



# Theatr Genedlaethol Cymru

## Swyddog Marchnata (Marketing Officer)

TEITL Y SWYDD:	Swyddog Marchnata
YN ATEBOL I:	Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu
PWRPAS Y SWYDD:	Cynorthwyo'r Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu i weithredu strategaeth farchnata a chyfathrebu'r cwmni.
CYFLOG:	£20,000-£22,000 yn ddibynnol ar brofiad a chymwysterau
HYD AC ORIAU'R SWYDD:	Llawn Amser – 37.5 awr yr wythnos (oriau hyblyg i'w cytuno) Swydd barhaol (wedi cwblhau cyfnod prawf 6 mis)
GWYLIAU:	25 diwrnod, y flwyddyn + gwyliau statudol.
LLEOLIAD:	Y Llwyfan, Caerfyrddin, ond gyda'r disgwyliad y bydd y swydd yn cynnwys teithio ledled Cymru a thu hwnt.

## Theatr Genedlaethol Cymru

### Disgrifiad Swydd: Swyddog Marchnata

#### Prif Ddiben y Swydd:

Cynorthwyo'r Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu i weithredu strategaeth farchnata a chyfathrebu'r cwmni.

#### Yn adrodd i'r

Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu

#### Cyfrifoldebau Rheoli Llinell

Dim

#### Gweithio i ThGC

Mae gan bob aelod o staff Theatr Genedlaethol Cymru rôl sylweddol i'w chwarae er mwyn cyflawni nodau'r Cwmni. Mae'r staff i gyd yn hyrwyddwyr ar gyfer gwaith ac ethos y cwmni ac anogir staff y Cwmni i fynd i weld gwaith, datblygu rhwydweithiau a chysylltiadau, cyflwyno artistiaid newydd ac aelodau o'r gymuned i Theatr Genedlaethol Cymru ac i helpu i ddatblygu syniadau creadigol a chyfranogol ar gyfer y dyfodol. Mae presenoldeb yn ystod cyfarfodydd y Cwmni yn rhan werthfawr o swydd pawb. Y tu hwnt i dasgau penodol pob disgrifiad swydd, mae'r gweithgareddau hyn ledled y Cwmni yn rhan allweddol o gyfraniad a llwyddiant pob aelod o staff.

#### Marchnata a Chyfathrebu

- Cynorthwyo'r Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu (MaCH) i weithredu strategaeth farchnata a chyfathrebu'r cwmni, gyda'r nod o ehangu ymwybyddiaeth o'r cwmni a'i waith yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Cynorthwyo'r Rheolwr MaCh i lunio a gweithredu ymgyrchoedd marchnata ar gyfer holl gynyrchiadau'r cwmni.
- Creu copi a chynnwys o safon uchel sy'n marchnata a hyrwyddo holl waith y cwmni gan gynnwys y rhaglen artistig, gweithgareddau cyfranogi ac addysg, a digwyddiadau amrywiol eraill.
- Gweithio'n agos gyda dylunwyr, cyfieithwyr/prawf ddarllenwyr, cwmnïau creadigol ac asiantaethau digidol i oruchwylio'r broses greu a dylunio.
- Gofalu am holl waith print y cwmni, gan gynnwys poster, taflenni, rhaglenni cynyrchiadau, hysbysebion cyhoeddus, a.y.b., a threfnu eu dosbarthu i'r holl fannau priodol.
- Datblygu a diweddarau gwefan y cwmni ynghyd â safleoedd a phlatfformau digidol ac e-farchnata a chyfryngau cymdeithasol y cwmni.
- Mapio'r wefan i adnabod bylchau a gweithio ar ddeunydd amrywiol i gyfoethogi'r wefan, yn ôl y galw.
- Cynorthwyo'r Rheolwr MaCh i gynnal partneriaethau gydag adolygwyr, newyddiadurwyr a chysylltiadau yn y wasg a'r cyfryngau yng Nghymru a thu hwnt er mwyn ehangu systemau cyfathrebu a chodi proffil y cwmni.
- Delio ag unrhyw ymholiadau gan y wasg a'r cyhoedd am wybodaeth, lluniau, fideos. a.y.b.
- Bod yn gyfrifol am drefniadau blaen tŷ cynyrchiadau'r cwmni gan gynnwys llunio amserlenni; bod yn bresennol ym mlaen y tŷ a chyfarch y gynulleidfa; goruchwylio staff blaen tŷ llawrydd; gwerthu rhaglenni a gofalu am yr arian parod; a thrafod Sibrwd (ap mynediad) gyda'r

gynulleidfa a staff.

- Cynorthwyo gyda threfniadau a mynychu digwyddiadau cenedlaethol a lleol ar ran y cwmni e.e. Eisteddfod Genedlaethol, cynadleddau, diwrnodau agored, a.y.b.
- Cydlynu archif lluniau, fideo a deunyddiau marchnata o holl gynyrchiadau a gwaith Theatr Genedlaethol Cymru gan sicrhau ei fod yn gyflawn, yn gyfredol ac yn rhwydd i'w ddefnyddio.

### **Datblygu Cynulleidfa**

- Cynnig syniadau ar gyfer datblygu a denu cynulleidfaedd newydd a chodi proffil y cwmni.
- Meithrin, magu a datblygu perthynas gydag ystod eang o randdeiliaid i'w galluogi i fod yn llysgenhadon a hyrwyddwyr effeithlon i'r cwmni a'i waith.
- Cynnal perthynas dda gydag ysgolion, sefydliadau addysgol a dysgwyr drwy rannu gwybodaeth berthnasol a phecynnau addysgol.
- Gweithio'n agos gyda'r Swyddog Cyfranogi i farchnata cyfleodd i gymryd rhan ac i hyrwyddo gweithgareddau amrywiol.

### **Data a Hygyrchedd**

- Gweinyddu a diweddarau bas data'r cwmni.
- Cadw cofnod o niferoedd cynulleidfa ac ymwneud cyfryngau cymdeithasol, a chasglu unrhyw ddata perthnasol.
- Cynorthwyo'r Rheolwr MaCh i sicrhau fod y cwmni yn cydymffurfio â'r cyfreithiau sy'n ymwneud â data, yn benodol y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).
- Sicrhau fod holl ddeunyddiau marchnata'r cwmni a'r wefan mor hygyrch â phosib.

### **Arall**

- Cynorthwyo gydag unrhyw waith marchnata neu hyrwyddo sy'n gysylltiedig â datblygu incwm a nawdd.
- Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Gweithredol i weithredu strategaeth datblygu nawdd y cwmni.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill rhesymol ar gais y Rheolwr MaCh.

## Manyleb Person

	Hanfodol	Dymunol
<b>Cymwysterau a Hyfforddiant</b>		
Cymhwyster proffesiynol (gradd/diploma) ym maes marchnata		✓
<b>Profiad</b>		
Profiad o weithredu strategaeth farchnata	✓	
Profiad marchnata o fewn y byd celfyddydol		✓
Profiad o hyrwyddo cwmni a phrosiectau creadigol		✓
Profiad o weithredu technoleg ddigidol a phlatfformau rhwydweithio cymdeithasol	✓	
<b>Gwybodaeth</b>		
Ymwybyddiaeth o dueddiadau marchnata a chyfathrebu ym maes theatr yng Nghymru, a thu hwnt.		✓
Gwybodaeth am ddefnydd ac arferion da mewn perthynas â chyfryngau cymdeithasol		✓
<b>Sgiliau</b>		
Y gallu i gyfathrebu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg – ar lafar ac yn ysgrifenedig – i safon uchel	✓	
Sgiliau technoleg gwybodaeth ragorol	✓	
Y gallu i feddwl am syniadau creadigol a dulliau arloesol o ymgysylltu gyda chynulleidfa	✓	
Y gallu i weithio fel aelod o dîm ac i weithio'n annibynnol	✓	
Sgiliau trefnu a rheoli amser rhagorol	✓	
Trwydded yrru gyfredol	✓	